# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5669

# 218

## 1 Dadl ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Yn unol â Rheol Sefydlog 13.3, gwahoddodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, wyth Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru i gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad at ddibenion yr eitem hon ar y cyd. Roedd 31 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn y Siambr ar gyfer yr eitem.

**NDM7100** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y bydd gwaith Senedd Ieuenctid Cymru yn ystod ei thymor cyntaf yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

a) iechyd meddwl a llesiant emosiynol;

b) sgiliau bywyd yn y cwricwlwm; ac

c) sbwriel a gwastraff plastig.

2. Yn cadarnhau ymrwymiad y Cynulliad i gefnogi'r gwaith y mae Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn ymgymryd ag ef i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru.

3. Yn cytuno â'r datganiad ar y cyd sy'n amlinellu ymrwymiad y Cynulliad a Senedd Ieuenctid Cymru i weithio gyda'i gilydd ar ran pobl ifanc Cymru.

[Datganiad -Senedd Ieuenctid Cymru a'r Cynulliad]

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15(ii), cynhaliwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon ar ddiwedd y ddadl.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

Am 14.15, cafodd y trafodion eu hatal dros dro am 15 munud. Cafodd y gloch ei chanu 5 munud cyn ailgynnull.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Dechreuodd yr eitem am 14.30

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Dechreuodd yr eitem am 15.19

Gofynnwyd cwestiynau 1-6 ac 8-10. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl. Cafodd cwestiynau 2, 8 a 9 eu hateb gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 4 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 16.03

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

## 5 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 16.14

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Russell George: (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i gwmni adeiladu Jistcourt?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.26

Gwnaeth Dawn Bowden ddatganiad fel Hyrwyddwr Rhywogaethau ar gyfer y Llysywen Ewropeaidd.

Gwnaeth Vikki Howells ddatganiad yn coffáu 125 mlynedd ers Trychineb Glofa Albion (23Mehefin 1894)

## Aelodaeth Pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 16.30

**NDM7109** – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn dileu Dawn Bowden (Llafur) fel aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol

Dechreuodd yr eitem am 16.30

**NDM7099** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru – Y Sector Addysg Uwch

Dechreuodd yr eitem am 17.25

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7101** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r argyfwng ariannol difrifol sy'n wynebu sector addysg uwch Cymru, gyda chyhoeddi bod nifer sylweddol o swyddi wedi'u colli dros y deuddeg mis diwethaf ymysg pryderon am gynaliadwyedd ariannol sefydliadau unigol.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad brys o gynaliadwyedd ariannol sector prifysgolion Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mandad penodol i CCAUC ymyrryd i atal methdaliad unrhyw sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol agos, drwy gyfrwng benthyciad brys os oes angen.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw arian cyhoeddus i brifysgol yng Nghymru yn amodol ar y ffaith na fyddai cyflog is-ganghellor yn ddim mwy na phum gwaith enillion canolrifol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau digonolrwydd a thryloywder trefniadau goruchwylio a llywodraethu prifysgolion, yn enwedig mewn perthynas â gwariant arian cyhoeddus;

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyfarwyddo CCAUC, ac unrhyw gorff olynol, i weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr a staff prifysgolion ar bob lefel o wneud penderfyniadau; a'i gwneud yn ofynnol i brifysgolion ystyried llais myfyrwyr a barn staff wrth wneud penderfyniadau staffio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 34 | 43 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod:

a. bod Prifysgolion yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn sefydliadau annibynnol ac ymreolaethol;

b. yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector Addysg Uwch ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Brexit a'r gwymp yn nifer y bobl ifanc 18 oed;

2. Yn croesawu:

a. bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r system cefnogi myfyrwyr fwyaf hael yn y Deyrnas Unedig, a bod nifer y myfyrwyr rhan amser ac ôl-raddedig yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol;

b. bod setliad teg a chynaliadwy wedi'i gyflwyno i brifysgolion Cymru a bod ymrwymiad i gynyddu cyllid CCAUC ym mhob blwyddyn ariannol am oes y Llywodraeth hon;

c. bod ymrwymiad ar draws y sector yng Nghymru i dalu'r cyflog byw go iawn i bob aelod o staff, bod mwy o dryloywder o ran adrodd ar gyflogau rheolwyr uwch, bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bod y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi ei fabwysiadu;

d. mai Cymru yw'r wlad sy'n perfformio orau yn y Deyrnas Unedig o ran bodlonrwydd myfyrwyr.

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi yng nghylch gwaith CCAUC y dylai weithio mewn partneriaeth â'r sector i gynyddu tryloywder o ran y defnydd o incwm o ffioedd a chryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 18 | 43 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

*[Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 4 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r wybodaeth am y sefyllfa ariannol y mae'n ei hystyried o ran y sector addysg uwch cyn cytuno ar ddyraniad cyllideb flynyddol y sector.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 25 | 43 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM7101** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod:

a. bod Prifysgolion yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn sefydliadau annibynnol ac ymreolaethol;

b. yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector Addysg Uwch ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Brexit a'r gwymp yn nifer y bobl ifanc 18 oed;

2. Yn croesawu:

a. bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r system cefnogi myfyrwyr fwyaf hael yn y Deyrnas Unedig, a bod nifer y myfyrwyr rhan amser ac ôl-raddedig yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol;

b. bod setliad teg a chynaliadwy wedi'i gyflwyno i brifysgolion Cymru a bod ymrwymiad i gynyddu cyllid CCAUC ym mhob blwyddyn ariannol am oes y Llywodraeth hon;

c. bod ymrwymiad ar draws y sector yng Nghymru i dalu'r cyflog byw go iawn i bob aelod o staff, bod mwy o dryloywder o ran adrodd ar gyflogau rheolwyr uwch, bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a bod y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi wedi ei fabwysiadu;

d. mai Cymru yw'r wlad sy'n perfformio orau yn y Deyrnas Unedig o ran bodlonrwydd myfyrwyr.

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi yng nghylch gwaith CCAUC y dylai weithio mewn partneriaeth â'r sector i gynyddu tryloywder o ran y defnydd o incwm o ffioedd a chryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd.

Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 19 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.21

## 10 Dadl Fer - Ni chyflwynwyd cynnig

Ni chyflwynwyd cynnig.

## Cynnig i Atal Rheolau Sefydlog Dros Dro (5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 18.23

**NNDM7103** - Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i Ddadl Fer Dawn Bowden gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 26 Mehefin 2019.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.23

**NNDM7098** – Dawn Bowden (Merthyr Tydfil and Rhymney)

Amser i sefydlu hawl gyfreithiol i dai digonol yng Nghymru.

Gwneud ymrwymiad cenedlaethol i'r egwyddor sylfaenol y dylai pob un ohonom gael hawl ddynol, wedi'i hategu gan gyfraith, i gael gafael ar dai digonol a chynaliadwy.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.47

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2019**